CANLLAWIAU SWYDDOGION

GOHEBYDD Y WASG



1. BETH YW RÔL GOHEBYDD Y WASG?

Rôl gohebydd yw hysbysu ac hyrwyddo gweithgareddau a llwyddiannau'r clwb yn y wasg leol ac ar gyfryngau cymdeithasol.

2. BETH SYDD YN GWNEUD GOHEBYDD DA AC EFFEITHIOL?

Mae bod yn berson drefnus yn allweddol i'r swydd yma! Mi ddylai'r gohebydd gadw at ddyddiadau cau papurau bro a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth cywir i'w hysbysebu. Sicrhau ei bod yn hyrwyddo'r clwb yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn lleol.

3. CANLLAWIAU PWYSIG

- Dylid ysgrifennu adroddiad i'r papur bro lleol yn rheolaidd, yn dynodu llwyddiannau'r clwb a'r aelodau, yn rheolaidd. Gellir hefyd gynnwys unrhyw newyddion am briodasau, genedigaethau a.y.y.b os y dymunir.

- Cofiwch nodi unrhyw weithgareddau bydd yn digwydd yn y dyfodol er mwyn hysbysu ffrindiau, cyn aelodau a darpar aelodau y clwb, ynghyd â chanlyniadau a newyddion am weithgareddau sydd eisioes wedi digwydd.

- Os oes yna achlysur arbennig, megis dathliad neu godi arian, gellir danfon adroddiad a llun i'r Cambrian News ac hefyd i gylchgrawn NFYFC 'Ten26'.

- Gweithiwch yn agos gyda Swyddogion eraill y clwb, yn enwedig y Cadeirydd, Ysgrifennydd a Ysgrifennydd Cofnodion, i gasglu a chrynhoi gwybodaeth.

- Gohebydd y Wasg sydd hefyd yn gyfrifol am hysbysu ac hyrwyddo gweithgareddau a llwyddiannau'r clwb drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, megis tudalen gyhoeddus ('Page') ar Facebook, a thrwy gyfri Twitter, Instagram, Snapchat ac ati.

- Cofiwch gadw copi o'ch adroddiadau i roi yn y llyfr lloffion!

4. COFIWCH…

Os nad ydych yn siwr am rhywbeth neu os oes gennych broblem – Ffoniwch y swyddfa.

Gallwch hefyd ofyn i gyn swyddogion, aelodau hŷn, arweinyddion a rhieni eich clwb am help.

Swyddfa: 01570 471444 ceredigion@yfc-wales.org.uk www.yfc-ceredigion.org.uk